

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 3 TACHWEDD 2021

Yn bresennol: Y Cadeirydd Hefin Jones.

Y Cyngorwyr: Elfed Wyn ap Elwyn, Enid Roberts, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol).

Ymddiheuriadau: Richard Davies, Keith O'Brien, Annest Smith, Dewi Williams, Elfed Roberts.

Gan nad oes Clerc ar hyn o bryd cymerwyd y cofnodion gan y Swyddog Ariannol.

2194 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021.

2195 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) – Garej Lôn – Derbyniwyd ateb gan Liz Saville Roberts yn cadarnhau ei bod wedi cyfeirio pryder y Cyngor a'r Ysgol at Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd. Hefyd bu iddi awgrymu y posibilrwydd bod y Cyngor yn cysylltu gyda'r DVLA parthed sefyllfa y cerbydau dan sylw. 'Roedd ymateb wedi ei anfon yn ol i ddweud bod trigolion cyfagos wedi gwneud hyn ond nid oes dim i weld yn cael ei wneud. Cytunwyd aros am ymateb pellach.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo - Adroddwyd nad oedd Magnox wedi derbyn adroddiad gan y Pensaer hyd yma.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Gan nad oedd yn bosib i'r Cyngorydd Elfed Roberts fynychu y cyfarfod cytunwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod Adrian Roberts wedi cysylltu gyda mudiadau y pentref a bydd yn trefnu cyfarfod dros y we ond nid oes dyddiad wedi ei benodi hyd yma.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Gan nad oedd yn bosib i'r Cyngorydd Elfed Roberts fynychu y cyfarfod cytunwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Derbyniwyd ateb gan R B Williams yn cadarnhau ei fod yn fodlon torri rhan A a B 3 gwaith y flwyddyn. Adroddwyd bod Guto Tomos wedi cadarnhau y bydd yn trefnu i fesur dyfnder y tir sydd yn cael ei drafod fel estyniad i'r Fynwent a bydd yn cysylltu gyda'r Cadeirydd cyn gwneud y gwaith. Cytunwyd gofyn i Marcus Smith am anfoneb am wneud y gwaith lladd chwyrn ym Mynwentydd Pencefn a Salem.

2085 (3) Llys Ednowain – Adroddwyd nad yw Traws-Newid wedi ymateb i'r llythyr pellach a anfonwyd yn gofyn am gopi o'r cyfrifon. Trafodwyd yr ad-daliadau sydd wedi eu gwneud i Traws-Newid ac ystyriwyd yr adroddiad ariannol oedd wedi ei dderbyn oddiwrth Cadair View Lodge yn nodi swm sylweddol o arian sydd wedi ei drosglwyddo i Traws-Newid dros 3 blynedd. Eglurwyd bod cyfiawnhad am rai o'r taliadau oedd wedi eu gwneud ond cytunwyd gofyn am ad-daliad, ond dylid eu hysbysu y bydd yn bosib y bydd cais am ad-daliadau pellach yn cael eu gwneud. Dylid hefyd anfon bil am y rhent 'peppercorn' sydd yn ddyledus ers Ebrill 2004, cyfanswm o £18.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol – Yr oedd cadarnhad wedi ei dderbyn cyn y cyfarfod bod swyddog newydd wedi ei benodi yn lle Iwan ap Trefor a bydd y Cyngorydd Elfed Roberts yn trefnu iddo ddelio a'r achosion dan sylw.

2092 (6) Llysiau'r Dial (Japanese Knotweed) – Adroddwyd bod Gwydion Wyn o'r Dref Werdd wedi cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod Gwanwyn 2022. Cytunwyd gadael y mater ar y cofnodion.

2099 (6) Marciau Gwyn – Yr oedd cadarnhad wedi ei dderbyn cyn y cyfarfod bod swyddog newydd wedi ei benodi yn lle Iwan ap Trefor a bydd y Cyngorydd Elfed Roberts yn trefnu iddo ddelio a'r achosion dan sylw.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Gorfodi plentyn fynd i dalgylch ysgol wahanol ar ol gadael Ysgol Gynradd. Y Cyngorydd Annest Smith am edrych dros e-bost diwethaf Cyngor Gwynedd.

2113 (1) Golau Stryd wrth y Toiledau Cyhoeddus – Derbyniwyd ebost gan Peter David Roberts Uwch Beiriannydd Goleuo Cyngor Gwynedd yn adrodd nad yw Cyngor Gwynedd yn cadw stoc o'r lampau sydd ar y safle ond yr oedd yn rhaid gosod lamp byr dymor er mwyn goleuo y stryd. Bu iddo gadarnhau bod Cyngor Gwynedd yn bwriadau ail osod y braced a lamp arall yn ei lle.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pant Glas – Derbyniwyd ebost gan Adrian Williams Cyngor Gwynedd oedd wedi ei basio ymlaen i'r Cyngorydd Annest Smith gan nad oedd yn ymateb i'r pryderon oedd wedi eu codi. Cytunwyd anfon y lluniau a'r ymateb oedd wedi eu paratoi gan y Cyngorydd Annest Smith yn ol i Adrian Williams.

2126 (3) Biniâu Halen – Yr oedd adroddiad wedi ei dderbyn cyn y cyfarfod bod y Cyngorydd Elfed Roberts yn dal i aros am y datganiad.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor (rhwng 1 a 6) – Adroddwyd bod Adra wedi gofyn am luniau o'r ceir yn rhwystro mynediad a cadarnhawyd bod lluniau wedi eu hanfon iddynt. Adroddwyd hefyd bod copi o ebost wedi ei dderbyn gan y Cyngor sydd wedi ei anfon i Adra gan un o'r trigolion cyfagos yn nodi yr union bryderon. Cytunwyd aros am adroddiad pellach gan Adra.

2161 (2) – Cae o dan Bryn y Gofeb a'r wal derfyn – Cytunodd y Cyngorydd Dewi Williams i gael golwg ar y safle.

2161 (4) – Plinth Cof Golofn Hedd Wyn – Cadarnhawyd bod Robert Williams wedi gwneud y gwaith.

2161 (8) – Llwybr o Stesion i Blaen Cwm – Mae y Cyngorydd Elfed Wyn ap Elwyn wedi cysylltu gyda Peter Rutherford sawl gwaith ond nid yw wedi derbyn ymateb.

2161 (9) – Pergola Gardd Salem – Nid oedd yn bosib i Evan Thomas a'i Feibion roi pris am osod y Pergola heb wybod y maint ayb. Trafodwyd y trafferthion a allai godi oherwydd y pergola pan fydd angladdau ac hefyd torri y gwair ynghyd a difrod tywydd. Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu ymhellach gyda'r Dref Werdd i holi os yw yn bosib archebu potiau plannu safonol ar gyfer Sgwar y Pentref yn lle y Pergola.

2161 (10) – Hel Sbwriel – Cadarnhawyd bod ymgyrch codi sbwriel wedi ei drefnu ar y 13 Tachwedd rhwng 10 y bore a hanner dydd.

2162(2) – Sedd Wag y Cyngor – Nid oes ceisiadau i lenwi y sedd wag wedi ei derbyn hyd yma.

2171 (1) Swydd y Clerc – Adroddwyd bod hysbysebion newydd wedi eu gosod yn nodi bod y cyflog presennol yn seiliedig ar oddeutu 10 awr y mis o waith. Cytunwyd ei osod ar y dudalen Facebook.

2176 (1) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod y llythyr wedi ei anfon i'r ymgymerwyr. Cadarnhawyd bod y gwaith o osod y 2 hysbysfwrdd newydd mewn llaw.

2177(1) – Dewi Lake – Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i Dewi Lake ar ei ymdeoliad fel Pennaeth Ysgol y Moelwyn ar ddiwedd y tymor.

2177(4) – Parc Bryn Glas – Cadarnhawyd bod y gwaith o dorri y 2 goeden Fedwen sydd ar y safle mewn llaw. Cytunwyd gofyn i gwmni Tir a Choed glirio y mwsog a’r gwair sydd yn gorchuddio y cerrig ar y safle.

2184(1) - Fandaliaeth Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Cadeirydd bod 2 ymateb wedi bod i’r ceisiadau am wybodaeth ar y gwefannau cymdeithasol. Cytunodd i gysylltu gyda’r Heddlu i ofyn os oes unrhyw ddatblygiadau pellach. Cadarnhaodd y Cynghorydd Idwal Williams ei fod wedi glanhau y paent ond bod mwy o waith angen ei wneud.

2184(3) – Mae Eirian Humphreys wedi adrodd bod hi angen tacluso cofnodion y Cyngor cyn i’r Cadeirydd drefnu dyddiad i’w nol. Adroddwyd hefyd y bydd yn nol glieniadur ac argraffydd y Cyngor sydd ganddi. Cadarnhawyd bod llythyr o ddiolch wedi ei anfon iddi am ei gwasanaeth fel Clerc.

2184(4) – Rhiwgoch – Derbyniwyd ateb gan Swyddog Cynllunio (Cydydffurfiaeth) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn edrych i mewn i’r mater ac yn ymchwilio i weld os oes cais ar gyfer orfodaeth ynghyd a’r camau nesaf. Nodwyd bod Rhiwgoch yn cael ei hysbysebu ar safle we ‘Rightmove’ i’w werthu ar ocsiwn Rhagfyr 2021.

2184(6) – Gordyfiant ar y llwybr o amgylch y Llyn – Adroddwyd bod y gwaith wedi ei ddechrau. Nid oedd ateb wedi ei dderbyn yn dilyn y cais i osod arwyddion yn y pentref yn dangos y ffordd i’r llwybr. Cytunodd y Cynghorydd Enid Roberts i drefnu i gael map o’r llwybr a’i osod yn yr hysbysfwrdd yn Sgwar y Pentref.

2184(7) – Ffens cae chwarae Bro Prysor – Adroddwyd bod llythyr wedi ei anfon yn cynnwys cais i drwsio y difrod. Yr oedd cadarnhad wedi ei dderbyn bod y mater mewn llaw.

2185(1) – Datblygu Tai Cymunedol – Adroddwyd bod Mr Arfon Jones yn gwneud ymholiadau pellach i weld os oes diddordeb mewn sefydlu grwp i ddatblygu’r cynllun. Mae cysylltiad wedi ei wneud gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglyn a’r Cynllun Datblygu.

2185(2) – Cynllun Mentro – Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer y 4 Tachwedd 2021 yn y Neuadd Gyhoeddus.

2185(3) – Torch Sul y Cofio – Cytunwyd gosod torch ar gofeb Hedd Wyn am 10.45 o’r gloch y bore a’r gofeb ym Mryn y Gofeb am 11 o’r gloch y bore.

2192(1) – Gordyfiant gwrych rhiw Pencefn – Cytunwyd cysylltu gydag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i adrodd bod gwrych yn tyfu drosodd i’r ffordd sydd yn golygu bod yn rhaid symud i ganol y ffordd i’w hosgoi pan yn cerdded.

2192(2) – Coeden Nadolig – Adroddwyd bod y Cynghorydd Dewi Williams am drefnu rhodd o goeden Nadolig eto eleni. Cytunwyd archebu goleuadau newydd i’w haddurno.

2193(1) – Cofeb Bryn y Gofeb – Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts ei bod wedi gwneud ymholiadau ynglyn ag archebu coeden rhosyn i blannu yn un o’r potiau wrth y gofeb. Cadarnhaodd y byddai yn ceisio cael un cyn Sul y Cofio.

2196 – GOHEBIAETH

- (1) Un Llais Cymru - Ymgynghoriad ar Ddiweddar Trothwyon Enillion ar gyfer Adennill y Dreth Gyngor – ymateb erbyn Rhagfyr 2021 – i’w anfon i’r Cynghorwyr.
- (2) Un Llais Cymru - Peilot o Becyn Hunanasesu Cynghorau Cymuned a Thref - Mynegiant o Ddiddordeb – adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi datgan diddordeb ond ‘roedd y dyddiad cau wedi mynd heibio.

- (3) Un Llais Cymru ar ran Comisiynydd Pobl Hyn Cymru - Hyfforddiant Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth – i'w anfon i'r Cynghorwyr
- (4) Un Llais Cymru - fersiwn ddiwygiedig o'r model brotocol ar gyfer datrys cwynion yn anffurfiol – cytunwyd mabwysiadu y model a diweddarau polisi y Cyngor.
- (5) Cyngor Gwynedd - Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus - i'w anfon i'r Cynghorwyr.
- (6) Un Llais Cymru - Cynlluniau Teithio Llesol - i'w anfon i'r Cynghorwyr
- (7) Cyngor Gwynedd – Grantiau Cist Gwynedd
- (8) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Grantiau Cronfa Cymunedol Eryri
- (9) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Grantiau cronfa prosiectau cymunedol bychain.
- (10) Un Llais Cymru – Arolwg Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Adran 47 Cyfarfodydd Aml-Leoliad – dyddiad cau 26 Tachwedd 2021 - i'w anfon i'r Cynghorwyr

Gohebiaeth er gwybodaeth

- Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion
- Un Llais Cymru - Hyfforddiant Tachwedd a Rhagfyr
- Awel y Mor - Cylchlythyr Hydref
- Un Llais Cymru - COP Cymru 2021
- HWB - Rhaglen Tachwedd

2197 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

2198 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- 2182(1) Lloches Bws Maesgwyndy – Nodwyd sawl cwyn am y lloches newydd sydd wedi ei osod yn cynnwys bod dwr yn crynhoi ar y llawr a fydd yn creu perygl pan fydd yn rhewi dros y Gaeaf, bod 2 agoriad i'r lloches sydd yn gadael y gwynt a'r glaw i mewn ynghyd a chwistrellau dwr gan gerbydau sydd yn mynd heibio a bod y lloches newydd yn hollol annerbyniol. Cytunwyd cysylltu a Cyngor Gwynedd i nodi y sylwadau ac hefyd i ofyn pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw y lloches newydd.
- (2) Tir Glanllynau Duon Bronaber – Adroddwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cydweithio gyda'r perchennog i ail-wylltio y tir. Cytunwyd cysylltu a'r Awdurdod i nodi pryder y Cyngor.
- (3) Y Feddygfa - Cytunwyd ysgrifennu i'r Feddygfa yn nodi siom bod disgwyl i drigolion y pentref drafaelio i Harlech i gael pigladau ffliw, hefyd yn nodi pryder bod diffyg gwasanaeth meddyg yn amal yn ddiweddar.
- (4) Cytunwyd cysylltu a Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i adrodd bod rhan o'r ffens ar y llwybr beics rhwng Frongaled a Llain Wen wedi torri a bod perygl i ddefaid gael mynediad i'r ffordd osgoi.
- (5) Gan nad ydi y Cynghorydd Bryn Jones wedi mynychu cyfarfodydd ers rhai misoedd bellach cytunwyd cysylltu gydag ef i ofyn beth yw ei gynlluniau fel Cynghorydd.

- (6) Cytunwyd anfon cerdyn 'Gwellhad Buan' i'r Cynghorydd Keith O'Brien.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

2199 – CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

- (1) Llywodraethwyr Ysgol Bro Hedd Wyn – y Cynghorwyr Idwal Williams ac Elfed Wyn ap Elwyn wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar. Mae'r adroddiadau ar gael gan y Cynghorydd Idwal Williams.
- (2) Safle Magnox – Derbyniwyd gwybodaeth am ymweliad Cwmni Egnio a'r safle yn ddiweddar.

CYFARFOD NESAF - 1 Rhagfyr 2021